

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd dros y rhwydwaith fideo am 11.00 ar 18 Chwefror 2014

Yn bresennol:

Aelodau: Geraint James (Cadeirydd)
Yr Athro Iwan Davies (o 11.50 ymlaen)
Mererid Jones (aelod cyfetholedig)
Dr Rhodri Llwyd Morgan

Archwilwyr: Jonathan Rees, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol) (ar gyfer eitemau 4 ac 8 yn unig)
Carol Warburton, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol) (ar gyfer eitemau 4 ac 8 yn unig)

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Catherine Rees, Ysgrifennydd
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Ymddiheuriadau: Gareth Pierce (aelod cyfetholedig)
Dr Catrin Thomas

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a chroesawyd Dr Rhodri Llwyd Morgan i'w gyfarfod cyntaf. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.		
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol	3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2013, fel cofnod cywir.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
4. Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol	<p>4.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad gan yr Archwilwyr Mewnol yn ymwneud â darlithwyr a'u rôl yn gweithredu amcanion y Coleg gan Carol Warburton.</p> <p>4.2 Yn deillio o bwynt 2.1 yr adroddiad argymhellwyd fod angen canolbwyntio ar y sefyllfa lle nad oedd rhai aelodau staff yn y sefydliadau yn deall yn llawn beth yw pwrpas a chenhadaeth y Coleg. Nodwyd fod cyfarfodydd ar lefel Dirprwy Is-Ganghellor wedi'u trefnu gyda phob sefydliad yn ystod mis Mawrth 2014 .</p> <p>4.3 Awgrymwyd y dylai'r adroddiad nodi a oedd y Coleg yn cytuno neu anghytuno â'r argymhellion a'i ail-gyflwyno yng nghyfarfod mis Mehefin.</p> <p>4.4 Yn deillio o bwynt 2.2 yr adroddiad cyfeiriwyd at lwyth gwaith y darlithwyr. Nodwyd fod angen cryfhau prosesau yn y canghennau er mwyn cynorthwyo'r darlithwyr.</p> <p>4.5 Yn deillio o bwynt 2.3 a 2.4 yr adroddiad nodwyd yr angen ar gyfer cyfathrebu mwy effeithiol rhwng y Coleg a'r darlithwyr.</p> <p>4.6 Yn deillio o bwynt 2.5 yr adroddiad eglurwyd fod gosod targedau yn amod o'r cyllid a dderbynnir gan CCAUC.</p> <p>4.7 Yn deillio o bwynt 2.7 o'r adroddiad nodwyd pryderon ynghylch y Porth. Nodwyd fod y swyddogion yn ymwybodol o'r materion sy'n codi a bod trafodaethau yn parhau. Cytunwyd i gylchredeg adroddiad Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth y Coleg i aelodau'r pwyllgor.</p> <p>4.8 Nododd aelodau'r pwyllgor bod y swyddogion wedi ymateb i'r risgiau posibl a amlinellwyd yn yr adroddiad.</p> <p>4.9 Nodwyd y bwriad i gyflwyno cynnig i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Chwefror, a oedd yn deillio o'r Bwrdd Academaidd a gyfarfu ar 5 Chwefror, fod myfyrwyr Cymraeg yn cael eu gosod mewn grwpiau neu fodiwlau Cymraeg yn ddi-ofyn.</p>	<p>Archwilwyr Mewnol a swyddogion i ddiwygio ac ail-gyflwyno</p> <p>Cylchredeg adroddiad OH ar y Porth</p>	<p>Erbyn diwedd Mai 2014</p> <p>Mawrth 2014</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>4.10 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad cynnydd yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2013/14 gan Jonathan Rees.</p> <p>4.11 Nodwyd y byddai'r archwilwyr mewnol yn archwilio effeithiolrwydd y Gofrestr Risg, yn adolygu Adnoddau Dynol ac yn archwilio Rheoli Mewnol y Coleg yn ystod y cyfnod nesaf ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt yng nghyfarfod haf 2014.</p> <p>4.12 Nodwyd ymhellach y byddai'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn derbyn adroddiad ar 19 Chwefror yn nodi fod risg i swyddi tu hwnt i ddiwedd cyfnod cyllido ond bod cyfarfodydd unigol gyda'r sefydliadau yn ystod mis Mawrth 2014 i asesu'r sefyllfa.</p> <p>4.13 Argymhellwyd y dylid cyflwyno adroddiad ar broses dendro'r Coleg erbyn y cyfarfod nesaf.</p> <p>4.14 Diolchwyd i'r Archwilwyr Mewnol am eu gwaith trylwyr yn paratoi'r adroddiadau.</p>	<p>Archwilwyr Mewnol i gyflwyno 3 adroddiad</p> <p>Adroddiad tendro i'r cyfarfod nesaf</p>	<p>Erbyn diwedd Mai 2014</p> <p>Erbyn diwedd Mai 2014</p>
<p>5. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 2 2013/14</p>	<p>5.1 Cafwyd crynodeb ac eglurhad ar Gyfrifon rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 2 2013/14 gan y Cofrestrydd.</p> <p>5.2 Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar y cyfrifon a thynnwyd sylw'r Swyddogion at y ffaith fod mantolen Barclays y Coleg yn ymddangos ar gyfrif gwe Cyfarwyddwyr y Coleg.</p>	<p>Swyddogion i wirio gyda Barclays</p>	<p>Mawrth 2014</p>
<p>6. Cyllideb y Coleg 2014/15</p>	<p>6.1 Cyflwynwyd Cyllideb y Coleg ar gyfer 2014/15 gan y Cofrestrydd. Eglurwyd bod strwythur gwahanol i'r gyllideb gan gynnwys newid i'r penawdau ac is-godau sy'n adlewyrchu'n well y gwaith a wneir gan y Coleg.</p> <p>6.2 Nodwyd fod newidiadau sylweddol fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Cynllun Staffio</u>. Cynnydd o £1,000,000 yn sgil apwyntio darlithwyr newydd trwy'r cynllun staffio. • <u>Cynllunio Academaidd</u>. Cwmp yn y gyllideb o ganlyniad 		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>fod nifer o ddarlithwyr a gyflogir drwy nawdd y Coleg yn ymwneud â gweithgareddau a fyddai wedi'u cyllido drwy'r Gronfa Brosiectau yn y gorffennol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Canghennau</u>. Costau ychwanegol er mwyn cynnal a chadw Gofodau Dysgu'r Prifysgolion. • <u>Corfforaethol</u>. Costau swyddfa newydd yng Nghaerdydd. <p>6.3 Trafodwyd cyfyngiadau'r penawdau a phwysigrwydd adrodd unrhyw newidiadau o sylwedd i'r pwyllgor.</p> <p>6.4 Cytunwyd i ddarparu adroddiad ar is-gyllidebau o £10,000 i'r pwyllgor a'r angen i adrodd i'r pwyllgor unrhyw amrywiadau o 10% neu fwy.</p> <p>6.5 Cytunwyd i argymhell i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Chwefror i dderbyn y gyllideb yn ei ffurf newydd.</p>	<p>Adroddiadau i'r pwyllgor</p> <p>Cyflwyno'r gyllideb i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr</p>	<p>Erbyn diwedd Mai 2014</p> <p>19 Chwefror 2014</p>
<p>7. Penodi Archwilwyr Allanol 2014-17</p>	<p>7.1 Cyflwynwyd crynodeb o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd yn y bore cyn y pwyllgor i benodi Archwilwyr Allanol y Coleg o 2014-17.</p> <p>7.2 Nodwyd mai dau gwmni oedd wedi cyflwyno cais.</p> <p>7.3 Trafodwyd cryfderau'r ddau gais yn sgil profiad ym maes addysg uwch, patrwm cleientiaid, cryfder eu brand a chostau.</p> <p>7.4 Ystyriodd y pwyllgor fanteision ail-benodi'r Archwilwyr Allanol presennol ar sail profiad, dilyniant, gwasanaeth blaenorol a chost. Canmolwyd safonau'r tendrau ac awgrymwyd y dylid cyfleu hynny i'r ymgeiswyr aflwyddiannus.</p> <p>7.5 Penderfynwyd argymhell i'r Llys fod Pricewaterhouse Coopers yn cael eu penodi fel Archwilwyr Allanol ar gyfer 2014-17.</p>	<p>Argymhelliad i'r Llys</p>	<p>18 Chwefror 2014</p>
<p>8. Penodi Archwilwyr Mewnol 2014-16</p>	<p>8.1 Adroddwyd bod cyfweiliad wedi ei gynnal gyda Jonathan Rees a Carol Warburton o KTS Owens Thomas i weithredu fel Archwilwyr Mewnol y Coleg o 2014-16.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>8.2 Nodwyd mai KTS Owens Thomas oedd yr unig ymgeiswyr a bod y tymor penodiad yn gwahaniaethu i dymor penodiad yr Archwilwyr Allanol.</p> <p>8.3 Ystyriodd y pwyllgor fanteision ail-benodi KTS Owens Thomas yn sgil profiad, dilyniant, gwasanaeth blaenorol a chost. Cytunwyd y dylid cynyddu nifer y dyddiau gwaith i 25 a bod angen iddynt ddarparu rota gwaith ar gyfer y penodiad dwy flynedd.</p> <p>8.4 Penderfynwyd argymhell i'r Llys fod KTS Owens Thomas yn cael eu penodi fel Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2014-16.</p>	Argymhelliad i'r Llys	18 Chwefror 2014
9. Materion yn Codi	<p>9.1 <u>Eitem 7 – Rhestr ffioedd a chydabyddiaeth ar gyfer aelodaeth allanol</u> Cymeradwywyd ym Mwrdd Cyfarwyddwyr 27 Tachwedd 2013 yr argymhelliad i gdnabod aelodaeth allanol y Pwyllgor Archwilio a bod hyn yn weithredol.</p> <p>9.2 <u>Eitem 8.3 – Cytundeb Cyllido gyda'r sefydliadau addysg uwch</u> Diolchwyd i'r Cofrestrydd am gylchredeg y cytundeb safonol ac eglurwyd y cyd-destun er mwyn yr aelodau newydd. Cytunwyd i gylchredeg y cytundeb i'r aelodau newydd.</p>	Gweithredol Cylchredeg y cytundeb safonol i'r aelodau newydd	Mawrth 2014
10. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	<p>10.1 Nodwyd y byddai'r swyddogion yn adolygu amserlen cyfarfodydd y pwyllgor yn ddibynnol ar fwriadau Cadeirydd newydd y Coleg. Awgrymwyd y gellid trefnu rhagor o gyfarfodydd dros y rhwydwaith er hwylustod ac un cyfarfod wyneb yn wyneb yn flynyddol.</p> <p>10.2 Nodwyd y byddai dyddiadau newydd y cyfarfodydd yn cael eu cylchredeg maes o law.</p>	Cylchredeg dyddiadau	Haf 2014